# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)15-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 27 Tachwedd 2007

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Mick Bates, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kirsty Williams. Croesawodd y Cadeirydd Mick Bates a fyddai'n ei chynrychioli, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)14-07 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 20 Tachwedd 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)15-07(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am y ddarpariaeth Gymraeg yn y Mesur Trafnidiaeth Leol, a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher, yn cael ei ohirio tan 4 Rhagfyr 2007.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad am Wasanaeth Ambiwlans a Chludo Cleifion yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 27 a 28 Tachwedd 2007.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal ddydd Mercher, ac y byddai pleidlais yn cael ei chynnal ar ddiwedd pob eitem fusnes yn lle.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)15-07(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)15-07(p3)**

3.6 Dywedodd Arweinydd y Tŷ fod '"Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 4) 2008"' ynghylch Gofal Cartref wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2007. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai cynnig i sefydlu ac ethol pwyllgor i drafod y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref yn cael ei drefnu ar gyfer dydd Mercher 5 Rhagfyr.

3.7 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cael cais i drefnu dadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2006/2007, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2007. Cytunodd y Pwyllgor i drefnu'r ddadl ar gyfer dydd Mercher 12 Rhagfyr.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth

**4. Mesurau Cynulliad**

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 - BC(3)15-07(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur, yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes gytuno i estyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad y Pwyllgor, sef 25 Ionawr. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wneud hynny, ond pwysleisiwyd na ddylai fod oedi yn yr amserlen gyffredinol.

**5. Unrhyw fater arall**

5.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at amseriad cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn. Dywedodd y neilltuir tair munud  ar gyfer pob cwestiwn ar hyn o bryd. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid neilltuo pedair munud ar gyfer pob cwestiwn, a hynny am gyfnod prawf. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i wneud hynny.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**